



Cymdeithas
Cyfieithwyr
Cymru

Myfyriwr Cyswllt

Gwybodaeth

1. Cyflwyniad

Bwriad categori'r Myfyriwr Cyswllt yw annog a chefnogi myfyrwyr sydd â'u bryd ar ddilyn gyrfa fel cyfieithydd.

Bydd ymgysylltu â'r Gymdeithas fel Myfyriwr Cyswllt yn dangos fod gennych ddiddordeb gwirioneddol mewn dilyn gyrfa fel cyfieithydd. Wrth wneud hynny gallwch elwa ar rwydweithiau, cynghorion, a rhai o weithgareddau'r Gymdeithas, gan gynnwys gweithdai ac arholiadau.

Ac oherwydd y gwyddom y gallai cyfnod prifysgol fod yn un drud ac nad ydym am ychwanegu at eich costau, ni chodir tâl arnoch i gofrestru fel Myfyriwr Cyswllt.

2. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yw'r corff proffesiynol cenedlaethol i gyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, p'un a ydynt yn gyfieithwyr testun neu'n gyfieithwyr ar y pryd.

Mae gan y Gymdeithas dair lefel o aelodaeth i unigolion: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd. Rhaid i bob aelod ymrwymo i'r Cod Ymddygiad Proffesiynol wrth dalu ei dâl aelodaeth blyneddol. Mae'r Gymdeithas hefyd yn cydnabod cwmnïau cyfieithu cymwys yn y sector preifat fel Cwmnïau Cydnabyddedig, ac unedau cyfieithu cymwys yn y sector cyhoeddus a dielw.

Nod y Gymdeithas yw cynnal, hyrwyddo a sicrhau'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg/Saesneg, yn ogystal â sicrhau bod y diwydiant cyfieithu yn datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hybu'r Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd.

Ariennir y Gymdeithas yn rhannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17.

I gael gwybod rhagor am Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, ewch i'n gwefan, www.cyfieithwyr.cymru

3. Myfyriwr Cyswllt

3.1 Mae cydnabyddiaeth fel Myfyriwr Cyswllt ar gael i:

- unrhyw un sy'n dilyn cwrs Cyfieithu neu Gyfieithu ar y Pryd a fydd yn arwain at gymhwyster ôl-raddedig, boed hynny trwy astudio'n amser-llawn neu'n rhan-amser.

- unrhyw un sy'n dilyn cwrs israddedig mewn Cyfieithu neu Gyfieithu ar y Pryd (a all fod yn radd lawn neu'n un gyfun), neu sy'n cymryd modiwl Cyfieithu ar lefel 5 neu 6, ac y mae ganddo ddiddordeb mewn gyrfa fel cyfieithydd.

3.2 Bydd cydnabyddiaeth fel Myfyriwr Cyswllt yn ddilys yn ystod cyfnod y cwrs y mae'r myfyriwr yn ei ddilyn ac am hyd at ddwy flynedd wedi dyddiad gorffen y cwrs yn dibynnu ar ddyddiad y cais i fod yn Fyfyriwr Cyswllt.

Ar ddiwedd y cyfnod hwn, oni bai fod y Myfyriwr Cyswllt wedi llwyddo yn un o arholiadau'r Gymdeithas ac wedi dod yn aelod Cyflawn, Sylfaenol neu CAP, caiff ddewis a yw am gael ei gynnwys yng nghronfa ddata'r Gymdeithas o gysylltiadau fel y gall barhau i gael gwybodaeth am ein gweithgareddau. Wrth wneud hyn a pharhau i gael gwybodaeth, y gobaith yw y bydd cyn Fyfyriwr Cyswllt yn sefyll un o arholiadau'r Gymdeithas o fewn cyfnod rhesymol ac yn unol â'u hamgylchiadau gwaith.

3.3 Ni chodir tâl am gofrestru fel Myfyriwr Cyswllt: mae'n rhad ac am ddim.

3.4 Ymhlith y manteision y gall unigolion elwa ohonyn nhw wrth fod yn Fyfyriwr Cyswllt mae:

- rhai o weithgareddau'r Gymdeithas am bris gostyngol, gan gynnwys gweithdai ac arholiadau.

- cyngor gan y Gymdeithas ynghylch y proffesiwn/diwydiant cyfieithu a dod yn gyfieithydd, e.e. arweiniad ynghylch profiad gwaith; sesiwn gydag un o aelodau profiadol y Gymdeithas a fydd yn gyfle i gael cynghorion defnyddiol a buddiol am weithio fel cyfieithydd.

4. Statws Myfyriwr Cyswllt

4.1 Ni fydd y Myfyriwr Cyswllt yn aelod o'r Gymdeithas. Ni fydd ganddo bleidlais ym materion y Gymdeithas.

4.2 Ni chaiff enwau'r Myfyriwr Cyswllt eu cyhoeddi ar wefan y Gymdeithas nac yn gyhoeddus yn unman arall.

4.3 Bydd pob Myfyriwr Cyswllt yn elwa o rai o fuddion aelodaeth y Gymdeithas.

4.4 Bydd hawl gan Fyfyriwr Cyswllt nodi hynny ar ei CV ac wrth chwilio am waith.

5. Gwneud cais i fod yn Fyfyriwr Cyswllt

- 5.1** Gall myfyriwr wneud cais i fod yn Fyfyriwr Cyswllt ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs y mae'n ei ddilyn, ac ar unrhyw adeg yn ystod y 12 mis ar ôl dyddiad gorffen y cwrs.
- 5.2** Wedi i chi ddarllen y wybodaeth yn y daflen hon, llenwch y ffurflen gais, na chymer lawer o'ch amser. Mae'n gofyn am wybodaeth amdanoch chi a thystiolaeth eich bod wedi cofrestru ar gyfer y cwrs yr ydych yn ei ddilyn. Nid ydym yn disgwyl i chi anfon dim byd arall atom wrth wneud cais.
- 5.3** Anfonwch y ffurflen gais ar e-bost i sylw Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr y Gymdeithas: geraint@cyfieithwyr.cymru